## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R :** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | **1/12/21** |
| **LLEOLIAD:** | **Cynhadledd Fideo** |
| **TEITL:** | **Diweddariad ar weithredu elfen Dyletswydd economaidd-gymdeithasol (DEG) Deddf Cydraddoldeb 2010 yn y broses o wneud penderfyniadau strategol.** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Diweddaru'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar y datblygiadau hyd yma o weithredu Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. |
| **RHESWM PAHAM Y BU I GRAFFU OFYN AM Y WYBODAETH** | Hysbysu o'r datblygiadau ers dechrau ar broses DEG ar 1/4/21. |

**CEFNDIR:**

- Mae Adran 45 Deddf Cymru 2017 yn dirprwyo pŵer i Weinidogion Cymru i ddechrau ar Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol o ran Llywodraeth Cymru.
- Mae hyn yn golygu gweithredu Rhan 1 Adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Mae'n ofynnol yn ôl Rhan 1 Adran 1 Deddf 2010 i gyrff cyhoeddus penodol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol megis 'penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion' ystyried sut y gall eu penderfyniadau gynorthwyo i leihau anghysondebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Yn gyffredinol mae'n dyletswydd sy'n ymwneud â gofyniad i ymgymryd ag **asesiad effaith tlodi.**
- Bu i ofynion DEG gychwyn ar 1/4/21.

**Y SEFYLLFA GYFREDOL:**

Bu i'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol gychwyn ar 1/4/21. Bydd yn angenrheidiol i sicrhau ein bod yn ystyried effaith ar dlodi pan gwneir penderfyniadau strategol er mwyn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Cwblhawyd y tasgau isod er mwyn codi ymwybyddiaeth a gweithredu DEG yn ein proses o wneud penderfyniadau strategol.

- Mae ein templed a chanllawiau Asesiad Effaith Integredig (AEI) wedi ei ddiwygio i gynnwys Dyletswydd economaidd-gymdeithasol.
- Bellach mae ar y templed AEI dri chwestiwn ar Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.
- Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau y canlyniad mewn perthynas â'r cynnig? Disgrifiwch paham fydd ganddo effaith bositif / negyddol neu effaith ddibwys.
- Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn yma?
- Pa gamau gallwch eu cymryd i liniaru unrhyw effaith negyddol neu gyfrannu'n well i effaith bositif?
- Mae canllawiau a templed AEI wedi ei ddiweddaru ar Cerinet.
- Caiff pob adroddiad Cabinet ei wirio gan y Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb yn ogystal â'r AEI a thrwy hynny a yw'r AEI o safon dderbyniol. Darperir adborth i'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol drwy'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad ac Amddiffyn y Cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys asesu cynnwys y DEG ac unrhyw AEI. Yn y pen draw bydd y penderfyniad terfynol a'r cyfrifoldeb am AEI o dan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol.
- Hysbyswyd y Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol a'u cynnwys yn y gwaith o gychwyn ar y DEG a diwygio ein prosesau AEI.
- Cafwyd cyflwyniad ar DEG gan Weithgor Rheolwyr Corfforaethol ar 28/5/21.
- Cynhaliwyd gweithgor Aelodau ar yr DEG ar 13/10/21.
- Mae ein hyfforddiant Cydraddoldeb a Chydraddoldeb E-ddysgu wedi ei ddiwygio i gynnwys yr DEG.
- Mae gwaith ar y gweill i ddarparu data anfantais economaidd-gymdeithasol er mwyn bod yn sail i gwblhau'r AEI.
- Caiff datblygiadau ar y Dyletswydd economaidd-gymdeithasol eu cynnwys yn Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2021-22 a chaiff ei gyhoeddi ar ein gwefan corfforaethol.

| | | |
|---|---|---|
| | **Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, esboniwch pam** | Na, adroddiad yw hwn i ddarparu diweddariad ar y gwaith o weithredu DEG. Gwnaed AEI ar gyfer integreiddio'r DEG i'r broses Asesiad Effaith Integredig. |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL** | ***Crynodeb:*** | |
| | **Hirdymor:** | Bydd gweithredu'r DEG o gymorth wrth fynd i'r afael â thlodi a sicrhau gwell dyfodol yn yr hirdymor. |
| | **Integreiddio:** | Integreiddiwyd y DEG i'n broses strategol o wneud penderfyniadau drwy ein Offer Asesiad Effaith Integredig |
| | **Cydweithio:** | Mae sgôp i gydweithio gyda phartneriaid er enghraifft drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol. |
| | **Cynnwys:** | Mae cynnwys ac ymgysylltu wedi ei sefydlu fel rhan o'r broses AEI |
| | **Atal:** | Bydd clustnodi effaith ar dlodi o gymorth wrth nodi camau sy'n leihau neu'n atal anfantais economaidd-gymdeithasol. |

**ARGYMHELLIAD**

Dylai Aelodau'r Pwyllgor Craffu gael eu diweddaru ar y gwaith o weithredu DEG.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**

Diweddaru'r Pwyllgor Craffu ar y datblygiadau o ran gweithredu Dyletswyddau economaidd-gymdeithasol. Cychwynnwyd ar y DEG ar 1/4/21 a chaiff y datblygiadau o ran y flwyddyn lawn gyntaf ei hadrodd yn Adroddiad Monitro Blynyddol y cynllun cydraddoldeb strategol 2021-22.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Michael Smith |
| **Swydd:** | Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb. |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 5/11/21 |
| **Acronymau:** | Dyletswydd economaidd-gymdeithasol (DEG)<br>Asesiad Effaith Integredig |